06 Tachwedd 2018 - Rhifyn 125

Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru

Regional School Effectiveness & Improvement Service for North Wales

Bwletin GwE

Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru – Enwebiadau ar Agor Nawr!

Mae Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru yn cael eu cynnal eto yn 2019!
Os ydych yn athro, athrawes, myfyriwr, rhiant, cyflogwr neu gyd-weithiwr ac yn gwybod am rywun sy'n haeddu Gwobr Addysgu Proffesiynol, mae gennych tan **hanner nos ar 30 Tachwedd 2018** i enwebu ar-lein **yma**.
Am ragor o fanylion, dilynwch y **ddolen hon**.

System Archebu Profion Darllen a Rhifedd [Rhesymu] Cenedlaethol [PWYSIG!] ★NEWYDD★

Gall ysgolion archebu papurau'r Profion Darllen a Rhifedd [Rhesymu] o **22 HYDREF 2018 hyd at 23 TACHWEDD 2018** drwy **System Archebu Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol** [dolen allanol].

Cynnig GwE ar G6

Fel y gwyddoch, mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [https://g6.gwegogledd.cymru].
Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6.
Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y **ddolen hon** a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau **yma**.

HYFFORDDIANT	DYDDIAD	LLEOLIAD
Hyrwyddo Dysgu ym Meysydd Llyth. a Rhif. yn Ystod CA2 [Saesneg] - Wrecsam	12/11/2018	Canolfan Cymunedol Acton, Wrecsam
DigiMeet [Saes, Wrecsam]	13/11/2018	Bwyty 1887, Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam
Hyrwyddo Dysgu ym Meysydd Llyth. a Rhif. yn Ystod CA2 [Cym] - Tŷ Menai, Bangor	13/11/2018	Tŷ Menai, Bangor
Cymorthyddion wrth eu gwaith [Carfan A - CYFRWNG CYMRAEG - Beaufort Park]	14/11/2018	Beaufort Park, Yr Wyddgrug
Cymorthyddion wrth eu gwaith [Carfan A - CYFRWNG SAESNEG - Beaufort Park]	14/11/2018	Beaufort Park, Yr Wyddgrug
Hyfforddiant Sylfaenol ar Therapi Siarad a Thynnu Llun	14/11/2018	Tŷ Menai, Bangor
Hyrwyddo Dysgu ym Meysydd Llyth. a Rhif. yn Ystod CA2 [Saes] - Llanelwy	14/11/2018	Gwesty'r Oriel, Llanelwy
Cymorthyddion: Rhaglen i Ddarpar CALU [Bangor]	15/11/2018	Tŷ Menai, Bangor
Cymorthyddion: Rhaglen i Ddarpar CALU [Yr Wyddgrug]	15/11/2018	Linden House, Yr Wyddgrug
Gwyddoniaeth Uwchradd: Sut Rydym yn Dysgu	15/11/2018	Venue Cymru, Llandudno

Cydweithio â grwpiau o ddysgwyr sy'n tangyflawni yn eu gwersi mathemateg drwy ddefnyddio IZak9	19/11/2018	Canolfan Fusnes Conwy
Adrodd Stori a Gwneud Ffilm yn Ddigidol [Cymraeg, Plas Menai]	20/11/2018	Plas Menai, Caernarfon
Cymorthyddion wrth eu gwaith [Carfan B - CYFRWNG SAESNEG - Bangor]	20/11/2018	Tŷ Menai, Bangor
Cymorthyddion wrth eu gwaith [Carfran B - CYFRWNG CYMRAEG - Bangor]	20/11/2018	Tŷ Menai, Bangor
Ysgolion sy'n wybodus am drawma [Bae Colwyn - SESIWN DDWYIEITHOG]	21/11/2018	Porth Eirias, Bae Colwyn
Adrodd Stori & Gwneud Ffilm yn Ddigidol [Saesneg, Llanelwy]	22/11/2018	OpTIC, Llanelwy
Cymorthyddion wrth eu gwaith [Carfan C - CYFRWNG CYMRAEG - Llanelwy]	22/11/2018	OpTIC, Llanelwy
Cymorthyddion wrth eu gwaith [Cohort C - CYFRWNG SAESNEG - Llanelwy]	22/11/2018	OpTIC, Llanelwy
Addysgu Mathemateg TGAU - Mathemateg ym myd Addysg a Diwydiant (MEI)	28/11/2018	Ysgol John Bright, Llandudno

Cyfleoedd gyda GwE

Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant – ADY – Trawsnewid – Y Cyfnod Sylfaen [Llawn Amser] [Ail Hysbyseb] ★NEWYDD★

SECONDIAD LLAWN AMSER – HYD AT 31/03/2020
HYSBYSEB SWYDD – YMGYNGHORYDD CEFNOGI GWELLIANT – ADY – TRAWSNEWID – Y CYFNOD SYLFAEN [AIL HYSBYSEB]
SWYDD DDISGRIFIAD - YMGYNGHORYDD CEFNOGI GWELLIANT – ADY – TRAWSNEWID – Y CYFNOD SYLFAEN [AIL HYSBYSEB]
Gwahoddir ceisiadau trwy lythyr erbyn **10:00yb, Dydd Llun, 19 Tachwedd 2018 i sionwynevans@gwegogledd.cymru**
Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â Margaret Davies, Arweinydd Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol Rhanbarth y Gogledd ar [01824] 708031 neu anfon e-bost at margaret.davies@denbighshire.gov.uk

Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant – STEM [Uwchradd] [Llawn Amser]

SECONDIAD NEU GYTUNDEB DROS DRO AM FLWYDDYN YN Y LLE CYNTAF GYDA PHOSIBILRWYDD O'I YMESTYN AM 2 / 4 BLYNEDD
HYSBYSEB SWYDD – YMGYNGHORYDD CEFNOGI GWELLIANT – STEM [UWCHRADD][LLAWN AMSER]
SWYDD DDISGRIFIAD – YMGYNGHORYDD CEFNOGI GWELLIANT – STEM [UWCHRADD][LLAWN AMSER]
Gwahoddir ceisiadau trwy lythyr gan gynnwys CV erbyn **10:00YB, DYDD IAU, 8 TACHWEDD 2018** at **anwengwilym@gwegogledd.cymru**
Am sgwrs anffurfiol cysylltwch ag Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar 0300 500 8087 neu anfon e-bost at alwynjones@gwegogledd.cymru

Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant – Arweinydd ADY – Trawsnewid [Ail Hysbyseb]

SWYDD LLAWN AMSER – AIL HYSBYSEB
HYSBYSEB SWYDD – YCG – ARWEINYDD TRAWSNEWID ADY [AIL HYSBYSEB]
SWYDD DDISGRIFIAD – YCG – ARWEINYDD TRAWSNEWID ADY
Gwahoddir ceisiadau trwy lythyr erbyn **10:00yb**, **Dydd Iau**, **8 Tachwedd 2018** i **sionwynevans@gwegogledd.cymru**
Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â Margaret Davies, Arweinydd Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol Rhanbarth y Gogledd ar [01824] 708031 neu anfon e-bost at margaret.davies@denbighshire.gov.uk

Hyfforddiant Cynradd

Hyfforddiant Trin Data yng Nghyfnod Allweddol 2 – WEDI'I OHIRIO ★NEWYDD★

DYDD MERCHER, 7 TACHWEDD 2018 – GwE, LINDEN HOUSE, YR WYDDGRUG
Nodwch fod y digwyddiad yma wedi'i ohirio.

Hywel Roberts – *Adventures in Learning*: Cwricwlwm Cyfoethog ac Addysgeg Tlodi

★NEWYDD★

DYDD IAU, 20 TACHWEDD 2018 – GWESTY FAENOL FAWR, BODELWYDDAN

Diwrnod gyda Hywel Roberts, awdur y llyfr '*Adventures in Learning*'.

Rhagor o fanylion ar gael **yma**.

I gadw lle, anfonwch e-bost at morgancordiner@gwegogledd.cymru cyn 15 Tachwedd 2018.

Gwaith Ymchwil Gweithredol Cynradd – Ennyn Diddordeb Grwpiau o Ddysgwyr sy'n Tangyflawni mewn Mathemateg gan Ddefnyddio IZak9 ★NEWYDD★

DYDD LLUN, 19 TACHWEDD 2018 – CANOLFAN FUSNES CONWY, CYFFORDD LLANDUDNO

Gwahoddir ceisiadau gan athrawon CA2 i gymryd rhan mewn prosiect cyffrous sy'n defnyddio'r adnodd masnachol IZak9 i ddatblygu rhuglder disgyblion gyda rhifau, eu sgiliau datrys problemau a'u gallu i resymu, gan ddefnyddio dull arloesol a chydweithredol.

Ceir rhagor o fanylion **yma**.

COFRESTRWCH DRWY G6.

Hyrwyddo Dysgu ym Meysydd Llythrennedd a Rhifedd yn Ystod CA2 ★NEWYDD★

TRI LLEOLIAD AR HYD A LLED Y RHANBARTH

Rhaglen 4 diwrnod yw hon gyda'r nod o symud dysgu disgyblion CA2 yn ei flaen, yn enwedig y rhai hynny sy'n cael trafferth cyflawni'r cynnydd disgwyliedig.

Cliciwch yma am ragor o fanylion.

COFRESTRWCH DRWY G6.

Rhwydweithiau Tymhorol y Cyfnod Sylfaen ★NEWYDD★

AR GYFER UWCH DIMAU RHEOLI, ATHRAWON A CHYMORTHYDDION DOSBARTH Y CYFNOD SYLFAEN

Yn ystod y cyfarfodydd trafodir materion a datblygiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol parthed y cyfnod sylfaen yn ogystal â rhannu astudiaeth achos 'arfer dda'.

Mae manylion pellach am y rhwydweithiau ar gael yma.

NODWCH Y MAP PARCIO AR GYFER LINDEN HOUSE, YR WYDDGRUG A BRYN EIRIAS, BAE COLWYN.

Datblygu Dinasyddiaeth Ddigidol

Mae GwE yn falch iawn o allu cynnig hyfforddiant am ddim gan Dr Sangeet Bhullar o Wise Kids i athrawon cynradd y rhanbarth. Bydd y sesiwn yn edrych ar ddulliau ymarferol o ddatblygu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth ddigidol a lles dysgwyr cynradd yn y cyd-destun hwn. Cliciwch yma am ragor o wybodaeth ac i gofrestru.

Digwyddiadau Uwchradd

PISA 2018 ★NEWYDD★

Cynhelir yr astudiaeth bwysig hon mewn ysgolion y tymor hwn ar hyd a lled y Deyrnas Unedig. Y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr [PISA] yw astudiaeth addysg ryngwladol fwyaf y byd, ac mae dros 80 o wledydd yn rhan ohoni.

Darllenwch ymhellach yma.

Gweithdy Dinasyddiaeth Ddigidol i Ddysgwyr ac Athrawon Uwchradd

Mae GwE a Wise Kids yn gwahodd grwpiau o hyd at bump (*1 athro/athrawes a 4 o ddisgyblion)* o ysgolion y rhanbarth i fynychu gweithdy ymarferol gyda Dr Sangeet Bhullar. Themâu'r gweithdy fydd Hyrwyddo Dinasyddiaeth Ddigidol, Cymhwysedd Digidol a Lles Digidol, a'r nod fydd helpu ysgolion i weithio gyda phobl ifanc i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u cymhwysedd digidol ac i ddefnyddio technolegau ar-lein yn effeithiol ac yn gyfrifol. Mae lle i 8 o ysgolion ar sail y cyntaf i'r felin - cliciwch yma am ragor o wybodaeth ac i gofrestru.

Gweithdy Ymgysylltu Rhanbarthol Llywodraeth Cymru ar Fesurau Perfformiad Ôl-16 Cyson

Gofynnir i bob ysgol sydd â chweched dosbarth anfon cynrychiolydd i Weithdy Ymgysylltu Rhanbarthol Llywodraeth Cymru ar Fesurau Perfformiad Ôl-16 cyson. Cynhelir y gweithdy yn y Glasdir ddydd Gwener 30 Tachwedd.

I gadw lle, cysylltwch ag Eirian Harris drwy anfon e-bost - eirianharris@gwegogledd.cymru

Addysgu Mathemateg TGAU

DATBLYGIAD PROFFESIYNOL I ATHRAWON MATHEMATEG CA3 A CA4

Mae GwE yn cynnig cyllid llawn i aelodau cymwys, yn amodol ar bresenoldeb llawn.

Cliciwch yma am ragor o fanylion neu cysylltwch â **delythellis@gwegogledd.cymru**

Cynadleddau a Chyfleoedd gan Eraill

2 Gynhadledd gan Brifysgol Bangor:
Y Gymraeg mewn Addysg a Dwyieithrwydd

DYDD GWENER, 9 TACHWEDD 2018 – CYFRWNG CYMRAEG AR GYFER YSGOLION CYMRAEG/DWYIEITHOG – TŶ MENAI, BANGOR
DYDD IAU, 22 TACHWEDD 2018 – CYFRWNG SAESNEG AR GYFER YSGOLION SAESNEG – GWESTY BEAUFORT PARK, YR WYDDGRUG
Yn dilyn ymateb 160 o benaethiaid [neu aelodau o uwch dîm rheoli] i'r Arolwg Sgiliau Iaith Gymraeg yn nodi y byddent yn gwerthfawrogi "sesiwn adfywio'r Gymraeg," mae Prifysgol Bangor yn cynnig cynhadledd fydd yn gosod cyd-destun i'r Gymraeg o ran cyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru a chynnig trosolwg cynhwysfawr o ddwyieithrwydd.
Cofrestrwch drwy G6.

Cynhadledd Flynyddol Genedlaethol Penaethiaid 2018 – Lansio Model Cenedlaethol Cymru ar gyfer Dysgu Proffesiynol

DYDD IAU, 15 Tachwedd 2018 – PRIFYSGOL BANGOR
Ffocws y gynhadledd fydd y model dysgu proffesiynol cenedlaethol newydd a beth mae hyn yn ei olygu i benaethiaid ac athrawon yng Nghymru. Cliciwch yma am ragor o wybodaeth. I gofrestru, dilynwch y linc

Cwrs Sabothol Cymraeg

AR GYFER ATHRAWON CYNRADD CYMRAEG AIL IAITH [YSGOLION SAESNEG]
Cwrs i athrawon sy'n siarad rhywfaint o Gymraeg yn barod, ac sydd eisiau defnyddio mwy o Gymraeg yn yr ysgol.
Cliciwch yma am ragor o fanylion.
DYDDIAD CAU ANFON CEISIADAU: 12 TACHWEDD 2018

Gwybodaeth Amrywiol ac Arolygon

Comisiynydd Plant Cymru – Eisiau eich Barn ★NEWYDD★

Mae Comisiynydd Plant Cymru am ganfod eich barn ar yr hyn sydd angen ei wneud i wella bywydau plant yng Nghymru.
Maent wedi creu **holiaduron** i gasglu eich barn. Dydd Sul, 11 Tachwedd 2018 yw'r dyddiad cau.
Am ragor o fanylion, cysylltwch â post@complantcymru.org.uk neu ffoniwch eu rhadffôn 0808 801 1000.

Rheoliadau Cymwysterau Cymru [Cosbau Ariannol] ★NEWYDD★

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar bŵer Cymwysterau Cymru i gyflwyno cosb ariannol.
Byddai hyn yn berthnasol pe na bai cyrff dyfarnu yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio.
Hefyd, maent yn ymgynghori ar sut i bennu statws ariannol corff dyfarnu.
Dyma **ddolen** i'r Ddogfen Ymgynghori.
Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 7 Ionawr 2019

Adnodd Addysg am Yr Athro Gwyn Thomas ★NEWYDD★

Platfform addysgiadol newydd yw'r wefan sy'n seiliedig ar waith un o lenorion enwocaf llenyddiaeth Cymru – Yr Athro Gwyn Thomas.
Mae'r wefan yn brosiect ar y cyd rhwng cwmni Telesgop a chyfranwyr amrywiol, ac wedi ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru.
Mae'n bosib ei weld trwy wefan Hwb ac ar www.gwynthomas.cymru
Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag elin.mair@telesgop.cymru

Sut i Gyflwyno Addysg Rhyw a Pherthnasoedd [SRE] mewn Ysgolion ★NEWYDD★

GWEITHDY HYFFORDDIANT GAN AGORED CYMRU
DYDD LLUN, 12 TACHWEDD 2018 – 9:30YB-5:00YP – VENUE CYMRU, LLANDUDNO
Archebwch eich lle yn awr.
Am ragor o wybodaeth anfonwch e-bost at **rheolwr.canolfan@agored.cymru**

Categoreiddio Cenedlaethol 2018-2019

Bydd Categoreiddio Cenedlaethol yn parhau ar gyfer 2018-2019. Mae'r canllawiau atodol yn rhoi cyngor i ysgolion, consortia ac ymgynghorwyr cefnogi gwelliant ar sut y dylid cymhwyso'r dyfarniad mewn perthynas â'r gallu i wella a'r penderfyniad ynghylch y categori cymorth mewn achosion lle y gall bod angen ystyried ffactorau cyd-destunol a ffactorau eraill.
Cliciwch yma i weld yr amserlen.

Sgrinio Ffilm *Human Flow* a Gweithdy Dwyieithog Gydag Oxfam

Fel rhan o'r Wŷl Ffilmiau am ddim, bydd ffilm *Human Flow* yn cael ei arddangos yn Cineworld Cyffordd Llandudno o 10:00 i 12:50 ddydd Gwener 9 Tachwedd. Mae'r digwyddiad yn addas ar gyfer disgyblion 14+ a gall fod yn ddefnyddiol ar gyfer rhai sy'n astudio Daearyddiaeth, Astudiaethau Crefyddol neu Fagloriaeth Cymru. Cliciwch yma am ragor o wybodaeth.

Cofiwch ddilyn @GwEGogleddCymru ar Twitter

GwEGogledd.Cymru

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan

Rydym wedi diweddaru ein polisi preifatrwydd i adlewyrchu newidiadau i'r ddeddf gwarchod data. Gallwch weld y polisi **yma**
Rydych wedi tanysgrifio i dderbyn bwletin GwE. Fodd bynnag, os nad ydych yn dymuno derbyn y bwletin rhagor gallwch ddatdanysgrifio drwy gysylltu â bwletin@gwegogledd.cymru yn nodi'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'i gofrestru.